

CYLCHLYTHYR GLAN CEUBAL



@ysgolglanceubal

Gwefan/Website: www.ysgolglanceubal.cymru



NOSON DEULUOL O GWMPAS Y TAN

Cafwyd noson hyfryd nos Wener yn ein Noson Deuluol o Gwmpas y Tân. Roedd yn braf iawn gweld cymaint o'n teuluoedd yn dod at ei gilydd i fwynhau noson hamddenol yn yr awyr agored, gyda digon o sgwrsio, chwerthin a mwynhau amser gyda'n gilydd.

Mae digwyddiadau fel hyn yn ffordd wych o ddod â'n cymuned ysgol ynghyd a chreu atgofion arbennig y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Diolch yn fawr iawn i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu'r noson a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r digwyddiad. Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o deuluoedd yn cymryd rhan.

LLUNIAU YSGOL COLORFOTO


- 30 Medi - Colorfoto - lluniau unigol o'ch plentyn/plant. Mae croeso i frodyr a chwiorydd gael llun gyda'i gilydd. Os ydynt mewn ysgol arall, gallant gyrraedd erbyn 8am ar gyfer llun. Os ydynt eisoes yma, byddwn yn eu grwpio ar gyfer llun teuluol.

GRANT HANFODION YSGOL

Ydych yn gymwys am y Grant Hanfodion Ysgol?

www.llyw.cymru/grant-hanfodion-ysgol-help-gyda-chostau-ysgol

**RYDYM YN HAPUS IAWN O
RANNU BOD EIN PRESENOLDEB
YSGOL YR WYTHNOS WEDI
CYRRAEDD 93.7% !**



GWEITHIO GYDA 'BULLIES OUT'

Yr wythnos hon, cafodd ein disgyblion yn yr Adran Uchaf gyfle gwych i weithio gyda'r tîm Bullies Out.

Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar faterion pwysig gan gynnwys bwlio, parch, caredigrwydd a sut y gallwn gefnogi ein gilydd. Cafodd y disgyblion gyfle i drafod, rhannu syniadau a myfyrio ar sut y gallwn greu cymuned ysgol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd yn wych gweld ein disgyblion yn cymryd rhan mor frwdfrydig ac yn ymgysylltu'n wych â'r gweithgareddau.

Diolch yn fawr i Bullies Out am ymweld â ni a darparu sesiwn mor werthfawr i'n disgyblion.

CYNLLUN TALU YMLAEN

Cofiwch fod ein Cynllun Talu Ymlaen ar gael drwy ParentPay.

Mae'r cynllun yn ein galluogi i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu anawsterau ariannol gyda chost teithiau, ymweliadau a phrofiadau, gan helpu i sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn colli allan oherwydd amgylchiadau ariannol.

Rydym yn ymwybodol bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o'n teuluoedd, ac rydym yn hynod ddiolchgar am garedigrwydd a haelioni ein cymuned ysgol.

Y llynedd, diolch i'ch cefnogaeth anhygoel, roeddem yn gallu helpu nifer o deuluoedd er mwyn sicrhau bod eu plant yn gallu cymryd rhan yn y profiadau gwych rydym yn eu cynnig yn Ysgol Glan Ceubal. **Mae pob ceiniog yn gwneud gwahaniaeth!**

DYDDIADAU PWYSIG I'W COFIO

- 21 Medi - Noson Groeso (mwy o fanylion ar wahan)
- 25 Medi - Diwrnod STEM - Blwyddyn 6 yng Nglantaf ahan)
- 25 Medi - Coffi clonc gyda'r Cyngor Lles
- 30 Medi - Diwrnod lluniau unigol Colorfoto

- 5-9 Hydref - Wythnos Lles: Iechyd Meddwl a Lles Meddyliol
- 6 Hydref - Rownd cyntaf - PobUrdd a ChogUrdd yn ein Ysgol
- 7 Hydref - Diwrnod HMS y Clwstwr - bydd yr ysgol ar gau i bob disgybl
- 8 Hydref - Pêl- Droed Cymysg BI 3a4 Noson Agored Plasmawr
- 12 Hydref - Dathliad Cynhaeaf Adran Isaf
- 13 Hydref - Sesiwn Dathlu Mathemateg bl 3 a 4
- 14 Hydref - Sesiwn Dathlu Mathemateg bl 5 a 6
- 15 Hydref - Dathlu Diwrnod Siwdmae gyda pherfformiad gan Mei Gwynedd (mwy o fanylion i ddod)
- 19 Hydref - Brechiadau fflw: Derbyn-Blwyddyn 5
- 19-23 Hydref - Ymweliad preswyl Blwyddyn 6 â Llangrannog

- 23 Hydref-2 Tachwedd - Gwyliau hanner tymor

2 Tachwedd - Wythnos Nosweithiau Rhieni

4 Tachwedd - Cerddorfa Glantaf DISGO CYNHAEAF YN YR YSGOL (MWY O WYBODAETH I DDOD)

- 5 Tachwedd- Pêl- Droed Cymysg BI 5a6

- 9 Tachwedd - Wythnos Lles - Gwrthfwlio

- 20 Tachwedd - Diwrnod Plant Mewn Angen (mwy o wybodaeth i ddod)

GLAN CEUBAL NEWSLETTER



@ysgolglanceubal

Website: www.ysgolglanceubal.cymru



FAMILY CAMPFIRE EVENING

We had a lovely evening on Friday at our Family Campfire Evening. It was wonderful to see so many of our families coming together to enjoy a relaxed evening outdoors, with plenty of chatting, laughter and time spent together.

Events such as this are a wonderful way of bringing our school community together and creating special memories outside of the classroom.

A huge thank you to PTA for organising the evening, and to everyone who came along and supported the event. It was lovely to see so many families taking part.

SCHOOL PHOTOS - COLORFOTO

• 30 September: Colorfoto – individual photos of your child/children. Siblings are welcome to have a photo taken together. If they are currently attending another school, they can arrive by 8am for a photo. If they are here, we will group them for a family photo.

SCHOOL ESSENTIAL GRANT

Are you eligible for the School Essentials Grant?

School Essentials Grant: help with school costs | GOV.WALES

WE ARE HAPPY TO SHARE THAT
OUR WEEKLY SCHOOL
ATTENDANCE HAS REACHED
93.7%!



WORKING WITH BULLIES OUT

This week, our Upper Department pupils had a fantastic opportunity to work with the Bullies Out team.

The session focused on important issues including bullying, respect, kindness and how we can support one another. Pupils had the opportunity to discuss, share their ideas and reflect on how we can create a school community where everyone feels safe, happy and valued.

It was wonderful to see our pupils getting involved so enthusiastically and engaging so positively with the activities.

A huge thank you to Bullies Out for visiting us and providing such a valuable session for our pupils!

PAY IT FORWARD SCHEME

A gentle reminder that our Pay It Forward Scheme is always available to access through ParentPay.

The scheme allows us to support families who may be struggling with the cost of trips, visits and other experiences, helping to ensure that no child misses out because of financial circumstances.

We know that the ongoing cost-of-living pressures are affecting many families, and we are incredibly grateful for the kindness and generosity of our school community.

Last year, thanks to your amazing support, we were able to help many families so that their children could take part in the wonderful experiences we offer at Ysgol Glan Ceubal. **Every penny makes a difference!**

IMPORTANT DATES FOR YOUR DIARY

- 21 September – Welcome Evening (more information to follow)
- 25 September – STEM Day – Year 6 at Glantaf
- 25 September Coffee and Chat with our Well being Council
- 30 September – Individual school photographs with Colorfoto

- 5–9 October – Wellbeing Week: Mental Health and Emotional Wellbeing

- 6 October – First round – PobUrdd and CogUrdd at our School

- 7 October – Cluster INSET Day – school will be closed to all pupils

- 8 October – Year 3 and 4 mixed football

- Plasmawr Open Evening

- 12 October – Lower Department.1 Harvest Celebration

- 13 October – Year 3 and 4 Maths Celebration Session

- 14 October – Year 5 and 6 Maths Celebration Session

- 15 October – Celebrating Siwdmae Day with a performance by Mei Gwynedd (more information to follow)

- 19 October – Flu vaccinations: Reception–Year 5

- 19–23 October – Year 6 residential visit to Llangrannog

- 23 October–2 November – Half-term holiday

- 2 November – Parents' Evenings Week

- 4 November – Glantaf Orchestra

- HARVEST DISCO AT SCHOOL (MORE INFORMATION TO FOLLOW)**

- 5 November – Mixed Football Year 5 and 6

- 9 November – Anti bullying week

- 20 November – Children in Need (More details to follow)